CBAC Lefel 2

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Asesiad Mewnol)

Fersiwn 3 - Ionawr 2024



# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Wedi'i ddiweddaru gan ychwanegu:<br>• Astudiaeth Achos Aseiniad 1 Opsiwn 2 (Alun)<br>• Cynllun marcio Opsiwn 2 (Alun) | <br>6<br>19 |
| 3 | Diweddarwyd rhestr y pwyntiau bwled | 18 |
| | Diweddarwyd datganiadau Taflen Farciau | 27, 37 |

# Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

# Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Asesiad Di-arholiad Mewnol)

# Uned 2

# I'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2019

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Aseiniad 1: | 3 |
| Astudiaeth achos Opsiwn 1 (Muriel) | 4 |
| Tasg Asesiad Di-arholiad Opsiwn 1 | 5 |
| Astudiaeth Achos Aseiniad 1 Opsiwn 2 (Alun) | 6 |
| Tasg Asesiad Di-arholiad Opsiwn 2 | 8 |
| Aseiniad 2: | 9 |
| Tasg Asesiad Di-arholiad 2 | 10 |
| Cynlluniau marcio | 11 |
| Aseiniad 1: | |
| Cynllun marcio Opsiwn 1 (Muriel) | 13 |
| Cynllun marcio Opsiwn 2 (Alun) | 19 |
| Mapio Dogfennau | 25 |
| Aseiniad 1: Taflen farcio | 26 |
| Aseiniad 2: | |
| Cynllun marcio Lleoliad Gwaith ac Ymgysylltu â'r Sector | 28 |
| Mapio Dogfennau | 35 |
| Taflen farcio | 36 |
| Cofnod ymgysylltu â'r sector/lleoliad gwaith | 38 |

**Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau**

**Uned 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog**

**Aseiniad 1**

**DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL**

**Tua 6 AWR**

.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Bydd angen i chi ddewis **un** astudiaeth achos cyn dechrau'r aseiniad.

Bydd gennych tua 6 awr i gwblhau'r aseiniad a llunio adroddiad manwl.

Dylai eich adroddiad gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth a feithrinwyd gennych yn ystod sesiynau addysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r astudiaeth achos a ddewiswyd gennych.

Dylai eich adroddiad fod tua 2,500 o eiriau.

Darllenwch y wybodaeth a thasgau'r aseiniad yn ofalus i sicrhau eich bod yn deall yr hyn sydd ei angen.

Mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ar yr ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith eich hun heb gymorth neb yw'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu.

Gwiriwch eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Ni fydd mynediad i'r rhyngrwyd yn ystod yr amser asesu ffurfiol.

Bydd angen i chi a'ch athro/athrawes lofnodi datganiad mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

Ni chewch drafod na rhannu unrhyw fanylion am yr astudiaethau achos na'r tasgau tan ar ôl 11 Mehefin 20XX.

## Astudiaeth achos Opsiwn 1 Aseiniad 1 – Asesiad Haf 20XX

Mae Muriel yn 75 oed ac yn byw yng nghartref y teulu gyda'i gŵr, Dafydd, sydd hefyd yn 75. Mae'n agos iawn at ei merch, Nia, a'i hwyrion a'i hwyresau. Mae gan Muriel bwysedd gwaed uchel ac osteoporosis. Mae'n cymryd meddyginiaeth ac yn cael archwiliadau rheolaidd gan ei meddyg teulu. Mae ar gam cynnar dementia sy'n achosi iddi golli ei chof a drysu. Golyga hyn fod yn rhaid atgoffa Muriel i gymryd ei meddyginiaeth.

Nid yw iechyd Muriel wedi ei hatal rhag rheoli cartref y teulu neu fwynhau amrywiaeth o weithgareddau a gwibdeithiau. Mae'n mwynhau mynd i grŵp gweu yn ei heglwys leol lle mae'n cwrdd â'i ffrindiau ac mae hefyd yn mwynhau cael trin ei gwallt yn y siop trin gwallt, am fod ganddi falchder yn ei hedrychiad.

Cafodd Muriel strôc yn ddiweddar ac mae wedi treulio deufis yn yr ysbyty yn cael gofal meddygol a gwasanaeth adsefydlu yn yr uned strôc acíwt. Mae'r strôc wedi lleihau ei symudedd a'i chryfder ar ei hochr chwith. Nid yw'n gallu ymolchi na gwisgo heb gymorth ac mae'n cerdded yn ansad, yn enwedig y tu allan. Mae bellach yn ei chael hi'n anodd llyncu ac mae angen iddi gael deiet meddal a hylifau wedi'u tewychu. Bydd llawer o'r tasgau yn y cartref bellach yn anodd i Muriel eu gwneud. Mae'r strôc hefyd wedi gwneud i Muriel golli ei chof yn waeth ac mae wedi mynd yn fwy dryslyd. Nid yw'n glir p'un a yw hyn yn barhaol neu a fydd yn gwella ymhen amser.

Cyn i Muriel gael ei rhyddhau o'r ysbyty, gwnaeth hi a Dafydd gwrdd â gweithiwr cymdeithasol. Cynhaliwyd asesiad o anghenion Muriel drwy archwilio beth oedd yn bwysig iddi, a gwnaethant drafod ei chanlyniadau llesiant personol gyda'i gilydd.

Mae Muriel wedi dweud y byddai'n hoffi:
- gallu gwneud cymaint ag o'r blaen
- gallu bod yn gyfrifol am ei gofal personol ei hun gan gynnwys defnyddio'r toiled, ymolchi, gwisgo ac edrych yn dda
- gallu mynd allan er mwyn cadw mewn cysylltiad â'i ffrindiau a'r gymuned leol
- gwella ei chryfder a dod yn fwy hyderus wrth symud o gwmpas y tu mewn a'r tu allan i'w chartref.

Wedyn, trefnodd Therapydd Galwedigaethol ymweliad cyn rhyddhau â chartref Muriel a Dafydd lle cynhaliwyd asesiad risg. Roedd addasiadau blaenorol eisoes wedi cael eu gwneud i'r tŷ, gan gynnwys sedd toiled uwch a chanllawiau yn yr ystafell ymolchi. Felly, penderfynwyd y byddai angen canllaw wrth y drws ffrynt a lifft grisiau hefyd. Aeth Muriel â chadair olwyn a chymhorthion cerdded adref gyda hi o'r ysbyty. Cyn i Muriel gael ei rhyddhau o'r ysbyty, cytunodd y gweithiwr cymdeithasol ar gynllun gofal a chymorth gyda Muriel, Dafydd a'r tîm amlddisgyblaethol. Mae Muriel a Dafydd o'r farn bod adsefydlu'n bwysig ac y bydd yn rhoi cyfle i Muriel ymadfer a chryfhau.

Roedd y cynllun gofal a chymorth a roddwyd ar waith yn cynnwys:
- gwasanaethau gofal cartref gan y tîm ailalluogi er mwyn helpu gyda gofal personol
- cymorth gan y therapydd galwedigaethol i ailddysgu sgiliau pob dydd fel gwisgo a symud o le i le.
- ffisiotherapi er mwyn helpu Muriel i gryfhau ei chyhyrau a gwella ei chydbwysedd a'i chydsymud.

Mae'r tîm ailalluogi wedi bod yn rhoi cymorth i Muriel gartref ers iddi ddod allan o'r ysbyty. Mae bellach yn gallu cyflawni tasgau gofal personol drosti ei hun. Nid oes angen cymorth y gwasanaethau gofal cartref ar Muriel mwyach ac mae ei chynllun gofal a chymorth wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu ei chynnydd. Mae'n gwneud cynnydd ardderchog yn y sesiynau ffisiotherapi ac mae'r therapydd galwedigaethol yn falch bod ei symudedd a'i chydsymud yn dechrau gwella; bydd yn parhau i fynychu sesiynau wythnosol. Mae Muriel nawr yn teimlo ei bod yn barod i gwrdd â'i ffrindiau yn y grŵp gweu a mynd i'r siop trin gwallt.

## Aseiniad 1: Astudiaeth Achos Opsiwn 1

**Lluniwch adroddiad i gynnwys tystiolaeth o'r holl dasgau fel y dangosir isod.**

Mae'r tasgau hyn yn seiliedig ar astudiaeth achos opsiwn 1 – Muriel.

**Tasg (a)** Amlinellwch sut mae anghenion sylfaenol Muriel wedi newid o ganlyniad i'w strôc ddiweddar.

[10 marc]

**Tasg (b)** (i) Nodwch **ddau** o'r canlyniadau llesiant personol yr hoffai Muriel eu cyflawni.

[2 marc]

(ii) Disgrifiwch sut y gallai gweithio amlddisgyblaethol helpu Muriel i gyflawni'r **ddau** ganlyniad llesiant personol rydych wedi'u nodi.

[9 marc]

**Tasg (c)** Esboniwch unrhyw heriau posibl y bydd angen eu goresgyn er mwyn i Muriel gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

[12 marc]

**Tasg (ch)** (i) Esboniwch pam mae'n bwysig i weithwyr gofal ddangos empathi, dibynadwyedd ac amynedd wrth helpu Muriel i gyflawni ei chanlyniadau llesiant personol.

[6 marc]

(ii) Disgrifiwch rôl codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol wrth gefnogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda Muriel.

[6 marc]

**Tasg (d)** Trafodwch sut mae egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ceisio cefnogi a hybu canlyniadau iechyd a llesiant personol Muriel.

[15 marc]

**Aseiniad 1: Cyfanswm 60 marc**

# Astudiaeth Achos Aseiniad 1 Opsiwn 2 – Asesiad Haf 20XX

Mae Alun yn 22 oed ac mae ganddo Syndrom Down. Adeg ei eni, darganfuwyd bod ganddo hefyd nam bach ar ei galon (sy'n aml yn gysylltiedig â Syndrom Down) a chaiff hynny bellach ei fonitro a'i drin yn rheolaidd gan ddefnyddio meddyginiaeth. Mae hefyd yn mynychu archwiliadau rheolaidd â seiciatrydd anghenion dysgu ychwanegol arbenigol, cardiolegydd a'i feddyg teulu. Mae Alun yn mwynhau mynd i'r sinema, bowlio deg, gwrando ar gerddoriaeth a gwylio'r teledu Nid yw Alun yn gwneud llawer o ymarfer corff ac yn ddiweddar, mae wedi datblygu arferion bwyta gwael ac wedi dechrau magu pwysau gormodol. Mae Alun yn mynychu canolfan gofal dydd ddwywaith yr wythnos a gofal seibiant deirgwaith y flwyddyn.

Mam Alun oedd ei brif ofalwr ac roedd y ddau ohonynt wedi bod yn byw yng nghartref y teulu hyd nes iddi farw'n ddiweddar. Roedd Alun a'i fam wedi bod yn ystyried symud i lety gofal preswyl neu lety byw â chymorth  Oherwydd ei hiechyd gwael, roedd yn ei chael hi'n gynyddol anodd gofalu am Alun Ar ôl marwolaeth ei fam, daeth ei chwaer Mari i'w helpu yng nghartref y teulu wrth i drefniadau'r angladd fynd rhagddynt. Mae Mari yn briod ac yn byw i ffwrdd gyda'i theulu ifanc. Roedd yn poeni sut y byddai Alun yn ymdopi heb ei mam gan fod yn rhaid iddi ddychwelyd at ei theulu ei hun. Penderfynodd Mari drefnu cyfarfod â gweithiwr cymdeithasol Alun er mwyn trafod ei phryderon.

Cyfarfu Mari ac Alun â'r gweithiwr cymdeithasol. Cynhaliwyd asesiad o anghenion Alun gan ganolbwyntio ar yr hyn a oedd yn bwysig i Alun a sut y gallai ddefnyddio ei gryfderau a'i adnoddau ei hun. Gwnaethant drafod unrhyw risgiau y gallai Alun eu hwynebu o ran ei lesiant personol a sut y gellid rheoli'r risgiau hyn.

Dywedodd Alun y byddai'n hoffi gallu gwneud y canlynol:

- gwneud ffrindiau newydd
- bod yn fwy annibynnol wrth ymgymryd â thasgau bywyd beunyddiol fel siopa, coginio, gwaith tŷ a golchi ei ddillad
- rhoi cynnig ar ddiddordebau newydd
- dysgu am gadw'n heini ac aros yn iach.

Dywedodd Mari y byddai'n poeni llai am Alun pe gwyddai ei fod yn cael gofal o safon 24 awr y dydd. Ar ôl trafod sawl opsiwn â Mari ac Alun o ran y lefel briodol o gefnogaeth y gellid ei darparu mewn amrywiaeth o leoliadau, cytunwyd mai llety â chymorth oedd yr opsiwn gorau.

Cytunodd y gweithiwr cymdeithasol, Alun a Mari ar gynllun i helpu Alun i drosglwyddo i'w gartref newydd. Byddai'n symud i lety â chymorth â thri dyn ifanc arall a chanddynt hefyd anghenion dysgu ychwanegol. Dywedodd Alun wrth ei chwaer ei fod yn teimlo'n gyffrous am symud, ond ei fod hefyd yn teimlo'n bryderus ac yn betrus. Trefnodd Mari ac Alun ymweliadau a gwnaethant gyfarfod â gweithiwr cymorth Alun. Yn ogystal â'r ffaith y byddai o fudd i Alun, roeddent yn hyderus y byddai'r cam hwn hefyd o fudd i breswylydd arall, Jon, 26 oed, a symudodd i'r tŷ 18 mis yn ôl pan fu farw ei fam, sef ei brif ofalwr.

Yn ystod yr ymweliadau, daeth y gweithiwr cymorth i wybod mwy am Alun a'i alluoedd a'i ddyheadau. Gwnaethant drafod y gefnogaeth ar oedd ar gael a fyddai'n ei helpu i fyw'n fwy annibynnol ac i barhau â'i ddiddordebau, sef mynd i'r sinema a bowlio deg. Roedd Alun o'r farn y byddai angen iddo ddysgu llawer o sgiliau newydd gan nad yw wedi byw ar ei ben ei hun nac wedi rheoli ei arian na'i feddyginiaeth ei hun o'r blaen. Dywedodd Alun hefyd y byddai'n hoffi chwilio am swydd ran amser.

Gweithiodd Alun a Mari gyda'r gweithiwr cymdeithasol a'r gweithwyr cymorth i lunio cynllun gofal a chefnogaeth.

Rhoddwyd y cynllun gofal a chefnogaeth ar waith ac mae'n cynnwys:

- help gan ei weithwyr cymorth wrth ymgymryd â thasgau fel golchi ei ddillad, coginio, siopa a chyrraedd ei weithgareddau a chyrraedd adref wedyn
- cefnogaeth wrth reoli ei arian a chadw trefn ar ei sefyllfa ariannol
- cefnogaeth gan faethegydd i wneud dewisiadau iach am fwyd
- archwiliadau iechyd rheolaidd gyda'i gardiolegydd, deintydd, meddyg teulu, seiciatrydd ac optegydd
- cefnogaeth wrth chwilio am swydd ran amser.

Ar ôl mis, cynhelir adolygiad o'r broses o drosglwyddo Alun i lety â chymorth. Mae ei weithwyr cymorth a'r gweithiwr cymdeithasol wrth eu bodd wrth glywed fod Alun yn teimlo ei fod wedi ymgartrefu, bod ei gynllun gofal a chefnogaeth yn gweithio'n dda a'i fod yn cyflawni ei ganlyniadau personol. Mae Alun wedi meithrin cyfeillgarwch da â Jon ac yn llwyddo i fyw'n annibynnol drwy wneud gwaith tŷ fel coginio a golchi ei ddillad. Mae'n hoffi cael ei gerdyn banc a'i arian ei hun ac mae wedi bod yn dysgu sut i gyllidebu.

Mae Alun hefyd wedi bod yn mwynhau mynd i'r sinema ac i fowlio deg â'i gyfeillion newydd yn y tŷ ac wedi bod yn mynd i'r gampfa. Mae hefyd wedi dod o hyd i swydd ran amser yn siop goffi'r gymuned leol.

## Astudiaeth Achos Aseiniad 1: Opsiwn 2

**Lluniwch adroddiad sy'n cynnwys tystiolaeth o'r holl dasgau fel y'u nodir isod.**

Mae'r tasgau hyn yn seiliedig ar astudiaeth achos opsiwn 2 – Alun.

**Tasg (a)** Disgrifiwch anghenion hirdymor Alun y mae'n rhaid eu diwallu er mwyn ei helpu i gyflawni ei ganlyniadau llesiant.

[10 marc]

**Tasg (b)** **(i)** Nodwch **ddau** o'r canlyniadau llesiant personol yr hoffai Alun eu cyflawni.

[2 marc]

**(ii)** Disgrifiwch sut y gallai amrywiaeth o weithwyr proffesiynol helpu Alun i gyflawni'r **ddau** ganlyniad llesiant a nodwyd gennych.

[9 marc]

**Tasg (c)** Esboniwch unrhyw heriau posibl y bydd angen eu goresgyn er mwyn i Alun gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

[12 marc]

**Tasg (ch)** **(i)** Esboniwch pam ei bod yn bwysig i weithwyr cymorth ddangos empathi, dibynadwyedd ac amynedd wrth helpu Alun i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol.

[6 marc]

**(ii)** Disgrifiwch rôl codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol wrth gefnogi'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gydag Alun.

[6 marc]

**Tasg (d)** Trafodwch sut mae egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ceisio cefnogi a hybu canlyniadau iechyd a llesiant personol Alun.

[15 marc]

**Aseiniad 1: Cyfanswm 60 marc**

**Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau**

**Uned 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog**

**Aseiniad 2**

**DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL**

**TUA 4 AWR**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Bydd gennych tua 4 awr i gwblhau'r aseiniad a llunio adroddiad manwl.

Dylai eich adroddiad gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth y gwnaethoch eu meithrin wrth i chi ymgysylltu â'r sector ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Rhaid i'ch adroddiad fod tua 2,500 o eiriau.

Darllenwch y tasgau aseiniad yn ofalus i wneud yn siŵr eich bod yn deall beth sydd ei angen.

Mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ar yr ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith eich hun heb gymorth neb yw'r hyn sy'n cael ei gynhyrchu.

Gwiriwch eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Efallai y bydd gennych fynediad i'ch log ymgysylltu â'r sector a nodiadau a gynhyrchwyd gennych yn ystod eich gweithgarwch ymgysylltu â'r sector, gan gynnwys eich lleoliad gwaith. Gallwch ddod ag uchafswm o 6 ochr (3 tudalen A4) o nodiadau i'r amgylchedd asesu yn ogystal â'ch log ymgysylltu â'r sector.

Ni fydd mynediad i'r rhyngrwyd yn ystod yr amser asesu ffurfiol.

Mae ymgysylltu â'r sector yn cynnwys lleoliadau gwaith ac ymweliadau a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ymweld â'r ysgolion/colegau i roi cyflwyniadau.

Bydd angen i chi a'ch athro/athrawes lofnodi datganiad mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

## Aseiniad 2: Lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector

**Lluniwch adroddiad i gynnwys tystiolaeth o'r holl dasgau fel y dangosir isod.**

Mae'r tasgau'n seiliedig ar eich lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector.

**Tasg (a)** Dewiswch **ddau** weithiwr iechyd a gofal cymdeithasol o leoliadau gwahanol yr ydych chi wedi ymgysylltu â nhw. Rhaid i **un** ohonynt fod o'ch **lleoliad gwaith** ac **un** o **ymgysylltu â'r sector** ychwanegol. [8+8 marc]

Lluniwch grynodeb ar gyfer pob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cyfeirio at:

- rolau a chyfrifoldebau
- mathau o leoliadau y gallan nhw weithio ynddyn nhw
- llwybrau gyrfa perthnasol
- rhinweddau sydd eu hangen i gyflawni'r rôl.

**Tasg (b)** (i) Diffiniwch ystyr gofal person-ganolog.[2 farc]

(ii) Rhestrwch **dair** mantais i'r unigolyn yn sgil ymarfer person-ganolog.[3 marc]

(iii) Esboniwch sut y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol hybu ymarfer person-ganolog a dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer iechyd a llesiant.

[9 marc]

**Tasg (c)** Esboniwch sut mae'r lleoliad(au) rydych wedi cael profiad ohonyn nhw yn cefnogi a hybu **dau** o'r canlynol:[15 marc]

- cydgynhyrchu
- hawliau unigolion a gofalwyr mewn perthynas â'u hanghenion iaith a'u dymuniadau
- diogelu
- parch tuag at amrywiaeth a natur unigryw unigolion
- dewis a rheolaeth mewn cynlluniau personol.

**Tasg (ch)** Myfyriwch ar y ffordd mae eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth eich hun wedi cael budd o ymgymryd â lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector. [15 marc]

Mae angen i chi gyfeirio at y canlynol:

- beth rydych chi'n teimlo oedd eich cryfderau a'ch gwendidau yn ystod eich lleoliad gwaith a chyfleoedd ymgysylltu â'r sector
- beth fyddech **chi** yn ei wneud yn wahanol pe byddech yn ymgymryd â'ch lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector eto.

**Aseiniad 2: Cyfanswm 60 marc**

# Cynlluniau Marcio'r Asesiad Di-arholiad ar gyfer
# Uned 2
# Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

**Gridiau asesu ar gyfer Asesiad Di-arholiad Uned 2**

**Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau**

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae'r disgrifydd ar gyfer y band yn darparu disgrifiad o lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.

Cyn marcio, dylai aseswyr yn gyntaf ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r broses anodi, gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o broject yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn wannach neu'n debyg i safon yr enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

**Safoni mewnol**

Os oes mwy nag un athro/athrawes mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy'r wefan ddiogel ar ddiwrnod y canlyniadau.

**Uned 2 Iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog**

**Cynllun marcio Aseiniad 1: Astudiaeth achos Opsiwn 1 (Muriel)**

| Tasg (a) | Amlinellwch sut mae anghenion sylfaenol Muriel wedi newid o ganlyniad i'w strôc ddiweddar. [10 marc] |
|---|---|
| **Band** | **AA1:** *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **4** | **8-10 marc**<br>Amlinelliad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o'r ffordd y mae anghenion sylfaenol Muriel wedi newid o ganlyniad i'w strôc ddiweddar. Ceir cyfeiriadau clir at ei hanghenion sylfaenol. |
| **3** | **6-7 marc**<br>Amlinelliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r ffordd y mae anghenion sylfaenol Muriel wedi newid o ganlyniad i'w strôc ddiweddar. Ceir rhai cyfeiriadau at ei hanghenion sylfaenol. |
| **2** | **4-5 marc**<br>Amlinelliad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae anghenion sylfaenol Muriel wedi newid o ganlyniad i'w strôc ddiweddar. Ceir cyfeiriadau sylfaenol at ei hanghenion sylfaenol. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Amlinelliad cyfyngedig heb fawr o wybodaeth na dealltwriaeth o'r ffordd y mae anghenion sylfaenol Muriel wedi newid o ganlyniad i'w strôc ddiweddar. Ceir cyfeiriadau cyfyngedig at ei hanghenion sylfaenol. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |
| | Gall atebion gyfeirio at:<br>• cynhaliaeth – mae ei hanghenion gofal personol wedi newid felly bydd angen cymorth arni bellach i ymolchi a gwisgo, paratoi bwyd a chofio i gymryd ei meddyginiaeth<br>• cyfranogiad – nid yw'n gallu rheoli cartref y teulu a bydd angen cymorth arni bellach ar ffurf gofal cartref<br>• diogelu – bydd tîm amlddisgyblaethol yn helpu i gynnal ei hannibyniaeth<br>• creu – cymorth gan therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion i wella ei galluoedd a'i sgiliau<br>• hunaniaeth – cymorth gan aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol i gynnal ei hunan-barch<br>• hamdden – oherwydd problemau symudedd, bydd angen cymorth arni i adael y tŷ ac mae hi wedi cael cadair olwyn a chymhorthion cerdded.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. |

**Tasg (b) (i) Nodwch ddau o'r canlyniadau llesiant personol yr hoffai Muriel eu cyflawni. [2 farc]**

**AA1:** *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.*

**Dyfarnwch 1 marc yr un am y ddau ganlyniad llesiant personol a nodwyd yn gywir o blith y canlynol:**

Mae Muriel wedi dweud y byddai'n hoffi:
- gallu gwneud cymaint ag o'r blaen
- gallu bod yn gyfrifol am ei gofal ei hun (gan gynnwys defnyddio'r toiled, ymolchi, gwisgo, edrych yn dda)
- gallu mynd allan er mwyn cadw mewn cysylltiad â'i ffrindiau/ y gymuned leol
- gwella ei chryfder/dod yn fwy hyderus wrth symud o gwmpas y tu mewn a'r tu allan i'w chartref.

**Tasg (b) (ii) Disgrifiwch sut y gallai gweithio amlddisgyblaethol helpu Muriel i gyflawni'r ddau ganlyniad llesiant personol rydych wedi'u nodi.[9 marc]**

**AA1:** *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.*

**7-9 marc**
Disgrifiad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r ffordd y gallai gweithio amlddisgyblaethol helpu Muriel i gyflawni dau ganlyniad llesiant personol.

**5-6 marc**
Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y gallai gweithio amlddisgyblaethol helpu Muriel i gyflawni dau ganlyniad llesiant personol.

**3-4 marc**
Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y gallai gweithio amlddisgyblaethol helpu Muriel i gyflawni dau ganlyniad llesiant personol.

**1-2 farc**
Disgrifiad cyfyngedig heb fawr o wybodaeth na dealltwriaeth o'r ffordd y gallai gweithio amlddisgyblaethol helpu Muriel i gyflawni dau ganlyniad llesiant personol.

**0 marc**
Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

**Dyfarnwch uchafswm o 4 marc os mai dim ond un canlyniad llesiant personol sy'n cael ei ddisgrifio.**

Rhaid i'r atebion gyfeirio at y ffordd y gallai rolau aelodau'r tîm amlddisgyblaethol helpu Muriel i gyflawni ei chanlyniadau llesiant personol.
Gall atebion gyfeirio at:

- gwasanaethau gofal cartref gan y tîm ailalluogi er mwyn helpu gyda gofal personol, ymolchi, gwisgo a pharatoi prydau bwyd
- gweithiwr cymdeithasol i adolygu gofal a chymorth
- cymorth gan y therapydd galwedigaethol i ailddysgu sgiliau pob dydd fel gwisgo a symud o le i le, a rhoi cyngor ar gymhorthion bywyd beunyddiol
- cymorth gan ffisiotherapydd er mwyn helpu Muriel i gryfhau ei chyhyrau a gwella ei chydbwysedd a'i chydsymud
- cludiant cymunedol er mwyn mynd â hi i'r grŵp gweu neu'r siop trin gwallt.

Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.

| Tasg (c) | **Esboniwch unrhyw heriau posibl y bydd angen eu goresgyn er mwyn i Muriel gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.** [12 marc] |
|---|---|
| Band | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **4** | **10-12 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r heriau y bydd angen eu goresgyn er mwyn i Muriel gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. |
| **3** | **7-9 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r heriau y bydd angen eu goresgyn er mwyn i Muriel gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. |
| **2** | **4-6 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r heriau y bydd angen eu goresgyn er mwyn i Muriel gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r heriau y bydd angen eu goresgyn er mwyn i Muriel gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |
| | Gall atebion gyfeirio at:<br>• caledi: dim digon o arian neu wasanaethau mewn rhannau o Gymru<br>• dim digon o hyfforddiant i'r gweithlu<br>• diffyg gwybodaeth ac arweiniad<br>• problemau posibl o ran cael gafael ar wasanaethau oherwydd meini prawf cymhwysedd<br>• cludiant at wasanaethau<br>• dim digon o staff yn y gweithlu<br>• amseroedd aros<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. |

| Tasg (ch) (i) | **Esboniwch pam mae'n bwysig i weithwyr gofal ddangos empathi, dibynadwyedd ac amynedd wrth helpu Muriel i gyflawni ei chanlyniadau llesiant personol.** [6 marc] |
|---|---|
| **Band** | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| 3 | **5-6 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r rhesymau pam mae'n bwysig i weithwyr gofal ddangos empathi, dibynadwyedd ac amynedd wrth helpu Muriel i gyflawni ei chanlyniadau llesiant personol. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rhesymau pam mae'n bwysig i weithwyr gofal ddangos empathi, dibynadwyedd ac amynedd wrth helpu Muriel i gyflawni ei chanlyniadau llesiant personol. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r rhesymau pam mae'n bwysig i weithwyr gofal ddangos empathi, dibynadwyedd ac amynedd wrth helpu Muriel i gyflawni ei chanlyniadau llesiant personol. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |
| | Dyfarnwch uchafswm o 2 farc os mai dim ond at **un** o'r egwyddorion gofal mae atebion yn cyfeirio.<br><br>Dyfarnwch uchafswm o 4 marc os mai dim ond at **ddwy** o'r egwyddorion gofal mae atebion yn cyfeirio.<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br>Empathi:<br>• ceisio deall sut mae Muriel yn teimlo o bosibl, e.e. gall fod yn teimlo'n rhwystredig, yn drist, wedi dychryn, yn ddihyder.<br><br>Dibynadwyedd:<br>• Mae Muriel yn dibynnu ar ofal cartref i gyflawni ei chanlyniadau gofal personol, e.e. ymolchi a gwisgo a chymryd ei meddyginiaeth.<br><br>Amynedd:<br>• Mae'n bosibl bod Muriel yn symud yn araf, yn ei chael hi'n anodd llyncu, yn colli ei chof ac yn ddryslyd, felly bydd gweithgareddau beunyddiol yn cymryd mwy o amser.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. |

| Tasg (ch) | (ii) **Disgrifiwch rôl codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol wrth gefnogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda Muriel.** **[6 marc]** |
|---|---|
| **Band** | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| 3 | **5-6 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o rôl codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol wrth gefnogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda Muriel. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol wrth gefnogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda Muriel. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o rôl codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol wrth gefnogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda Muriel. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |
| | Gall atebion gyfeirio at:<br>• rhestr sy'n disgrifio'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n ofynnol gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yw cod ymarfer proffesiynol<br>• mae'n ofynnol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol gydymffurfio â'r codau ymddygiad a'u dilyn wrth ymarfer<br>• maent yn sicrhau bod gofal o safon gyson yn cael ei ddarparu<br>• maent yn annog gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i fod yn atebol am ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu<br>• maent yn annog gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gymryd cyfrifoldeb am gynnal eu gwybodaeth a'u sgiliau.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. |

| Tasg (d) | Trafodwch sut mae egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ceisio cefnogi a hybu canlyniadau iechyd a llesiant personol Muriel. [15 marc] |
|---|---|
| **Band** | **AA3:** *Dadansoddi a myfyrio ar agweddau ar egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| 4 | **12-15 marc**<br>Trafodaeth ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r ffordd y mae egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ceisio cefnogi a hybu canlyniadau iechyd a llesiant personol Muriel. |
| 3 | **8-11 marc**<br>Trafodaeth dda sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r ffordd y mae egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ceisio cefnogi a hybu canlyniadau iechyd a llesiant personol Muriel. |
| 2 | **4-7 marc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ceisio cefnogi a hybu canlyniadau iechyd a llesiant personol Muriel. |
| 1 | **1-3 marc**<br>Trafodaeth gyfyngedig sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ceisio cefnogi a hybu canlyniadau iechyd a llesiant personol Muriel. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |
| | Gall atebion gyfeirio at:<br>• Caiff Muriel ei chefnogi i sicrhau llesiant<br>• Caiff Muriel ei hannog i fod yn rhan o'r gymuned<br>• bydd y gwasanaethau a ddarperir yn helpu i atal anghenion rhag datblygu<br>• caiff sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol eu hannog i weithio mewn partneriaeth<br>• Muriel fydd ffocws ei hasesiadau<br>• Bydd Muriel yn cael y cymorth sydd ei angen arni i wneud penderfyniadau ynghylch ei gofal a'i chymorth ei hun (Eiriolaeth)<br>• Rhaid i ganlyniadau llesiant personol Muriel gael eu hasesu<br>• Bydd Muriel yn elwa o weithio a chydweithio amlasiantaethol<br>• Bydd Muriel yn cael mwy o lais a rheolaeth dros benderfyniadau mewn perthynas â'i gofal<br>• Bydd Muriel yn cael cymorth i fyw bywyd da.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. |

**Uned 2: Iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**

**Cynllun marcio Aseiniad 1: Opsiwn 2 Astudiaeth achos (Alun)**

| Tasg | (a) Disgrifiwch anghenion hirdymor Alun y mae'n rhaid eu diwallu er mwyn ei helpu i gyflawni ei ganlyniadau llesiant. [10 marc] |
|---|---|
| **Band** | **AA1:** *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **4** | **8-10 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o anghenion hirdymor Alun y mae'n rhaid eu diwallu er mwyn ei helpu i gyflawni ei ganlyniadau llesiant. |
| **3** | **6-7 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion hirdymor Alun y mae'n rhaid eu diwallu er mwyn ei helpu i gyflawni ei ganlyniadau llesiant. |
| **2** | **4-5 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o anghenion hirdymor Alun y mae'n rhaid eu diwallu er mwyn ei helpu i gyflawni ei ganlyniadau llesiant. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Disgrifiad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o anghenion hirdymor Alun y mae'n rhaid eu diwallu er mwyn ei helpu i gyflawni ei ganlyniadau llesiant. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |
